
Archwilio Cymru
Audit Wales

# Ymgynghoriad ar ein Hamcanion Cydraddoldeb Arfaethedig ar gyfer 2022-2026

Chwefror 2022



# Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwahodd barn a sylwadau ar amcanion cydraddoldeb drafft Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y cyfnod 2022-2026. Ar ôl ei gwblhau, caiff yr amcanion eu hymgorffori mewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol Archwilio Cymru ar y cyd a'i gyhoeddi ym mis Ebrill 2022.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. O ganlyniad, yn y ddogfen hon, rydym yn cyfeirio'n benodol at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru mewn adrannau lle mae angen manylder cyfreithiol.

# Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb atom erbyn 4 Mawrth 2022 drwy e-bost neu drwy'r post gan ddefnyddio'r manylion isod.

Rydym yn croesawu ymatebion naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg.


E-bost post@archwilio.cymru

Tîm Cynllunio ac Adrodd
Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ


Os oes angen y cyhoeddiad hwn arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion a ddarperir uchod neu dros y ffôn ar 029 2032 0500.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cyfrinachedd a diogelu data

Gellir cyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn unol â deddfwriaeth mynediad at wybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn bennaf, ond hefyd ddeddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech ddweud wrthym pam eich bod yn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais am ddatgelu gwybodaeth, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch esboniad, ond ni allwn roi unrhyw sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn rhwymol i'r Archwilydd Cyffredinol na Swyddfa Archwilio Cymru.

Bydd data personol yn cael ei brosesu yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Pan fo data o'r fath yn dod o fewn cwmpas cais am wybodaeth gan berson arall, bydd angen ystyried darpariaethau deddfwriaeth diogelu data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth o dan yr amgylchiadau penodol. Er na ellir rhagfarnu unrhyw sefyllfa, mae hyn yn debygol o olygu bod gwybodaeth am uwch swyddogion a ffigurau cyhoeddus yn debygol o gael ei datgelu tra bod enwau a chyfeiriadau aelodau cyffredin o'r cyhoedd yn debygol o gael eu dal yn ôl.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 5 |
| Cyflwyniad | 6 |
| Ein hamcanion cydraddoldeb arfaethedig | 10 |
| Cwestiynau'r ymgynghoriad | 15 |

# Rhagair

Cyhoeddwyd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol presennol ym mis Ebrill 2018, gan nodi'r pethau allweddol yr oeddem yn bwriadu eu gwneud dros y cyfnod rhwng 2018 a 2022 i helpu i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da.

Ers hynny, rydym wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu rhaglen waith i helpu i sicrhau bod y trefniadau angenrheidiol ar waith i ni gyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb yn llawn a chyflawni yn erbyn y naw amcan cydraddoldeb yr oeddem wedi'u pennu ar ein cyfer. Adroddwyd ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r Cynllun hwnnw bob blwyddyn yn ein hadroddiadau cydraddoldeb blynyddol. Cyhoeddwyd ein Hadroddiad Cydraddoldeb ar gyfer 2019-20 ym mis Rhagfyr 2020, a bydd ein Hadroddiad Cydraddoldeb ar gyfer 2020-21 yn cael ei gyhoeddi'n fuan.

Ar ôl adolygu ac ystyried y cynnydd yr ydym wedi'i wneud dros y pedair blynedd diwethaf, rydym bellach wedi datblygu cyfres ddiwygiedig o amcanion cydraddoldeb a ddylai, yn ein barn ni, fod yn sail i'n gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng 2022 a 2026. Cyn cwblhau ein hamcanion newydd a'u cyhoeddi mewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig, rydym eisiau ceisio barn ein rhanddeiliaid amrywiol ar ein hamcanion arfaethedig a'r camau posibl y gallem eu cymryd i'w cyflawni.

Rydym yn arbennig o awyddus i glywed gan bobl sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau gwarchodedig.

Gobeithiwn y byddwch yn gallu cymryd yr amser i ddarllen y ddogfen ymgynghori fer hon ac edrychwn ymlaen at glywed eich barn.



**Adrian Crompton**

Archwilydd Cyffredinol Cymru



**Lindsay Foyster**

Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

# Cyflwyniad

## Pwy ydym ni

1 Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o sector cyhoeddus Cymru. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus a gaiff ei wario yng Nghymru, gan gynnwys yr arian y mae'r Senedd yn pleidleisio arno'n flynyddol. Caiff elfennau sylweddol o'r cyllid hwn eu trosglwyddo gan Lywodraeth Cymru i'r GIG a llywodraeth leol yng Nghymru.

2 Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru swyddogaethau o ddarparu adnoddau, megis staff, ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, a monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Ar hyn o bryd mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflogi tua 270 o staff.

## Yr hyn yr ydym yn ei wneud

**Rhoi sicrwydd**

bobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda.

**Egluro**

sut mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio a sut mae'n diwallu anghenion pobl.

**Ysbrydoli**

a grymuso'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wella.

3 Mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys archwilio cyfrifon a gwneud gwaith archwilio perfformiad lleol mewn ystod eang o gyrff cyhoeddus, ochr yn ochr â chynnal rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol. Gellir arfer y swyddogaethau hyn ar y cyd, os oes angen, ar draws gwahanol fathau o gyrff, i archwilio gwariant cyhoeddus, ni waeth pwy sy'n darparu'r gwasanaethau.

4 Gyda'n gilydd, fel Archwilio Cymru, rydym yn archwilio tua £21 biliwn o incwm a gwariant, sydd dros chwarter cynnyrch domestig gros Cymru. Yn gynyddol, rydym yn ystyried stiwardiaeth adnoddau dynol a naturiol ochr yn ochr â'n hystyriaeth o adnoddau ariannol a'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn rhoi cyfrif am eu defnydd.

5 Rydym yn nodi arfer da o ystod lawn ein gwaith archwilio ac yn lledaenu hyn drwy ystod o gyfryngau, gan gynnwys blogiau, podlediadau a seminarau a gweminarau dysgu a rennir.

# Ein huchelgeisiau



Manteisio'n llawn ar ein persbectif unigryw, ein harbenigedd a dyfnder ein dirnadaeth



Cryfhau ein safle fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol



Cynyddu ein hamlygrwydd, ein dylanwad a'n perthnasedd



Bod yn sefydliad enghreifftiol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

6 Rydym wedi nodi pedwar uchelgais eang sydd, gyda'i gilydd, yn disgrifio'r llwybr yr ydym yn ei gymryd tuag at gyrraedd ein llawn botensial fel sbardun i newid a gwelliant wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus ac atebolrwydd democrataidd.

7 Bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi Cynllun Blynyddol sy'n rhoi mwy o wybodaeth am:

a. sut yr ydym yn dilyn y bunt gyhoeddus yng Nghymru;

b. ein huchelgeisiau tymor hwy;

c. ein hamgylchedd gweithredu;

ch. ein rhaglenni gwaith arfaethedig a'n meysydd pwyslais cysylltiedig ar gyfer y 12 mis nesaf; a

d. sut yr ydym yn mesur ac yn adrodd ar ein perfformiad.

8 Mae ein rhaglenni gwaith arfaethedig yn cadw rhywfaint o hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau a blaenoriaethau sy'n newid, a materion newydd sy'n peri pryder cyhoeddus neu seneddol.

# Cydraddoldeb ac Archwilio Cymru

9 Mae prif swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys archwilio ac adrodd ar stiwardiaeth arian cyhoeddus gan gyrff cyhoeddus Cymru. Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, rydym yn ystyried pa mor dda y caiff cyrff cyhoeddus eu rhedeg ac effeithiolrwydd eu gwasanaethau. Felly, mae'r Archwilydd Cyffredinol mewn sefyllfa gref i nodi cyfleoedd i helpu i ddileu gwahaniaethu a hybu cyfle cyfartal wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Wrth adrodd ar gyrff cyhoeddus, ac wrth wneud argymhellion, gall yr Archwilydd Cyffredinol annog newidiadau buddiol o ran cydraddoldeb.

10 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd gwaith sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth pawb, ein staff ein hunain a'r rhai yr ydym yn dod i gysylltiad â nhw yn ystod ein gwaith, ac rydym yn llwyr gefnogi hawliau pobl i gael eu trin ag urddas a pharch. Fel cyflogwr o tua 270 o staff, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cael effaith sylweddol ac uniongyrchol ar bobl o ran cydraddoldeb. Mae'r Bwrdd yn cydnabod yn llawn y ddyletswydd i ddarparu cyfle cyfartal ar draws yr ystod lawn o ffactorau cyflogaeth, gan gynnwys: recriwtio; hyfforddiant; hyrwyddo; ffyrdd o weithio; a thelerau ac amodau, gan gynnwys cyflog.

11 Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ddilyn y fframwaith amddiffyn rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth a gyflwynwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys y Ddyletswydd Gyffredinol (Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus). Mae gennym gyfrifoldeb hefyd i gynnal y confensiynau a nodir yn Neddf Hawliau Dynol 1998.

12 Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod dyletswyddau cydraddoldeb penodol pellach sy'n berthnasol i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

a. datblygu amcanion cydraddoldeb penodol i helpu i gyflawni'r Ddyletswydd Gyffredinol;

b. nodi'r camau y bwriadwn eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny;

c. cynnwys unigolion sy'n cynrychioli unigolion â nodweddion gwarchodedig wrth bennu amcanion cydraddoldeb ac yn ehangach yn y dyletswyddau;

ch. gwneud trefniadau ar gyfer casglu gwybodaeth am gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol ac ystyried gwybodaeth berthnasol o'r fath wrth bennu amcanion cydraddoldeb;

d. monitro cynnydd wrth gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb;

dd. cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n nodi, ymhlith pethau eraill, ein hamcanion cydraddoldeb, y camau arfaethedig i gyflawni'r amcanion a'r amserlen ddisgwyliedig i'w cyflawni; a

e. chyhoeddi, bob blwyddyn, adroddiadau ar gynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb.

13 Gan fod yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u priod swyddogaethau eu hunain, mae'n ofynnol i bob un ddatblygu eu hamcanion cydraddoldeb eu hunain. Fodd bynnag, wrth i ni weithio gyda'n gilydd yn yr un sefydliad, er mwyn cydlyniad a darbodaeth, rydym wedi cytuno i ddod â'n hamcanion at ei gilydd mewn cynllun ar y cyd ar gyfer Archwilio Cymru.

14 Er nad yw'r Archwilydd Cyffredinol na Swyddfa Archwilio Cymru yn gyrff cyhoeddus rhestredig at ddibenion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, serch hynny, rydym yn ceisio ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y ffordd yr ydym yn cynnal ein busnes, a sicrhau ein bod yn cyfrannu cymaint â phosibl at gyflawni saith nod llesiant Cymru, gan gynnwys Cymru sy’n fwy cyfartal.

15 Yn yr un modd, er nad yw'r Archwilydd Cyffredinol na Swyddfa Archwilio Cymru wedi'u rhwymo gan y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol newydd, serch hynny, ceisiwn weithredu yn ysbryd y Ddyletswydd. Rydym yn ymwybodol o'r angen i leihau'r anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol yn ein penderfyniadau strategol, o ran y ffordd yr ydym yn cynnal ein busnes, ac wrth gynllunio a chyflawni ein rhaglen o waith archwilio.

# Ein hamcanion cydraddoldeb arfaethedig

16 Nodir ein hamcanion cydraddoldeb presennol yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y cyd a gyhoeddwyd gennym yn 2018. Ers cyhoeddi'r Cynllun hwnnw, rydym wedi cynnal a chyhoeddi adolygiadau blynyddol o effeithiolrwydd y camau a gymerwyd a'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r amcanion cydraddoldeb, a bydd y diweddaraf ohonynt yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir yn ein Hadroddiad Cydraddoldeb ar gyfer 2020-21.

17 Er mwyn sefydlu cyfres ddiwygiedig o amcanion cydraddoldeb arfaethedig, ystyriodd ein Tîm Arweinyddiaeth Weithredol y canlynol:

a. a ddylid dileu'r amcanion presennol yr oedd y camau a gymerwyd a'r cynnydd a wnaed arnynt wedi'u hasesu fel rhai effeithiol neu effeithiol iawn o'r rhestr;

b. a ddylid cadw unrhyw amcanion yr oedd y camau a gymerwyd a'r cynnydd a wnaed arnynt wedi'u hasesu fel rhai ag effeithiolrwydd cyfyngedig, ac os felly a oedd angen rhywfaint o ailysgrifennu i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben; ac


c. a ddylid ychwanegu unrhyw amcanion newydd at y rhestr i adlewyrchu ein hamgylchiadau presennol, gan gyfeirio'n benodol at ein gwybodaeth am gyflogaeth wedi'i ddadansoddi yn ôl nodweddion cydraddoldeb, ein cofrestrau risg strategol a gweithredol, y dadansoddiad o'n hamgylchedd gweithredu a ddisgrifir yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2021-22, a'r meysydd pwyslais sy'n dod i'r amlwg ar gyfer ein cynllun strategol tymor hwy ar gyfer cyflawni ein huchelgeisiau.

18 Canlyniad cychwynnol y trafodaethau hynny, yn dilyn ystyriaeth bellach gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru a'n Grŵp Buddiannau Cydraddoldeb staff (Pawb), yw ein bod yn bwriadu disodli ein set flaenorol o naw amcan â chyfres newydd o bedwar, fel y nodir yn yr arddangosyn dros y dudalen.

**Arddangosyn 1: amcanion cydraddoldeb newydd arfaethedig**

| Amcanion arfaethedig | Camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd i'w cyflawni | Sut yr ydym yn bwriadu monitro'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|
| <br>1. Sicrhau bod sylw perthnasol ac amserol yn cael ei roi i faterion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein rhaglen o waith archwilio. | • Ymgysylltu yn rheolaidd ag amrywiaeth o bobl a sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau gwarchodedig, i ofyn am eu barn ar waith posibl i'w gynnwys yn ein blaenraglen, ac ar y dulliau i'w mabwysiadu mewn archwiliadau ac astudiaethau perthnasol.<br>• Gwella ein gweithgarwch ymchwil a datblygu mewn meysydd gan gynnwys cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.<br>• Taro'r cydbwysedd cywir o ran bod â chronfa o brosiectau archwilio a gynlluniwyd ymlaen llaw a digon o hyblygrwydd i ymateb i feysydd diddordeb sy'n datblygu, gan gynnwys mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.<br>• Darparu cymorth a hyfforddiant i staff ar sut, wrth arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, y mae'n rhaid i archwilwyr hefyd gyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol, fel y nodir yng Nghod Ymarfer Archwilio'r Archwilydd Cyffredinol a chanllawiau cysylltiedig. | • Ceisio barn cynrychiolwyr grwpiau gwarchodedig ar sut mae darnau unigol o waith sydd eisoes wedi'u gwneud ac a oedd yn berthnasol i'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol wedi mynd i'r afael ag anghenion grwpiau gwarchodedig.<br>• Gofyn am farn staff ar eu hyder wrth gyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol wrth arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol. |

| Amcanion arfaethedig | Camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd i'w cyflawni | Sut yr ydym yn bwriadu monitro'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|
| 2. Deall anghenion cyfathrebu amrywiol ein cynulleidfaoedd yn well a chryfhau hygyrchedd ein hallbynnau a'n negeseuon. | • Ymgysylltu ag amrywiaeth o bobl a sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau gwarchodedig, i ddatblygu gwell dealltwriaeth o anghenion cyfathrebu ein cynulleidfaoedd.<br>• Gan ystyried yr adborth hwnnw, gwella a chynyddu darllenadwyedd a hygyrchedd ein cynnyrch archwilio a chyhoeddiadau eraill er mwyn elwa i'r eithaf ar eu cyrhaeddiad a'u heffaith.<br>• Nodi'n rhagweithiol gyfleoedd i arddangos ein gwaith i ystod ehangach o gynulleidfaoedd, ac addasu ein hallbynnau at ddibenion eraill yn unol â hynny.<br>• Arfogi ein staff i fanteisio'n well ar gyfleoedd i ddylanwadu ar ystod eang o gynulleidfaoedd.<br>• Darparu gwybodaeth am ein gwaith, gan gynnwys drwy ein gwefan, mewn ffordd sy'n hygyrch ac sy'n osgoi rhoi pobl sydd â namau o dan anfantais sylweddol. | • Ceisio barn cynrychiolwyr grwpiau gwarchodedig ar ddarllenadwyedd a hygyrchedd ein cynnyrch archwilio a chyhoeddiadau eraill.<br>• Casglu ystadegau blynyddol ar y defnydd o feddalwedd hygyrchedd a osodwyd ar ein gwefan. |

| Amcanion arfaethedig | Camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd i'w cyflawni | Sut yr ydym yn bwriadu monitro'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|
| <br>3. Denu a chadw pobl dalentog o bob cefndir, a sicrhau bod ein gweithlu'n fwy cynrychioliadol o amrywiaeth ein cymunedau yng Nghymru. | • Adolygu ein dulliau recriwtio ac asesu a'n defnydd o iaith yn ein hysbysebion swyddi, gyda'r bwriad o ddileu unrhyw rwystrau posibl sy'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig penodol.<br>• Hyfforddi rheolwyr recriwtio ac eraill sy'n rhan o'r broses recriwtio i sicrhau y glynir wrth safonau a phrosesau cyffredin.<br>• Datblygu ein rhaglen graddedigion a phrentisiaethau, gan ddefnyddio gwaith allgymorth i sicrhau ein bod yn denu pobl o bob oed, cefndir a chymunedau.<br>• Datblygu rhwydweithiau a gweithgareddau allgymorth ymhellach i wella amrywiaeth ein gweithlu. | • Casglu gwybodaeth am y gweithlu, fel sy'n ofynnol gan reoliadau cydraddoldeb Cymru, a'u cymharu  â meincnodi priodol.<br>• Monitro ein bylchau cyflog ar draws ystod o nodweddion cydraddoldeb gan ddefnyddio fformat tebyg i'r hyn sy'n ofynnol gan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Gwybodaeth am y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau) 2017.<br>• Monitro'r cynnydd a wnaed o ran camau gweithredu a gynlluniwyd gyda'r nod o fynd i'r afael â'n gwahaniaethau cyflog strwythurol a chynyddu amrywiaeth ein gweithlu. |

| Amcanion arfaethedig | Camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd i'w cyflawni | Sut yr ydym yn bwriadu monitro'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|
| <br>4. Ymgorffori diwylliant o gynhwysiant, ymddiriedaeth a hunanfyfyrio, lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. | • Darparu 'hyrwyddwyr' cydraddoldeb uwch a staff eraill a chefnogi gwaith Pawb a rhwydweithiau staff perthnasol.<br>• Codi ymwybyddiaeth ymhlith staff o hunaniaeth yr hyrwyddwyr hynny a'u swyddogaeth o ran meithrin cysylltiadau da ac ymgorffori ein hymddygiad a ddymunir, a darparu cymorth a chyngor pan fo staff yn mynegi unrhyw bryderon.<br>• Gweithio gyda Chadeiryddion ein rhwydweithiau menywod a staff LGBT i bennu a darparu lefelau priodol o gymorth.<br>• Adnewyddu a diweddaru ein hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gorfodol i'r holl staff. | • Cynnal arolwg staff gan ddefnyddio holiadur craidd Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil, sy'n cynnwys cwestiynau ym meysydd thematig cynhwysiant a thriniaeth deg, diwylliant sefydliadol, a gwahaniaethu, bwlio ac aflonyddu. |

# Cwestiynau'r ymgynghoriad

## Cwestiwn 1

**I ba raddau ydych chi'n cytuno â'n hamcanion cydraddoldeb arfaethedig ar gyfer y cyfnod o bedair blynedd rhwng 2022 a 2026?**

Dewiswch eitem o'r gwymplen isod:

Anghytuno'n Gryf

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi sylwadau ategol yn y blwch sylwadau isod:

## Cwestiwn 2

**A ydych yn credu y dylem gynnwys unrhyw amcanion cydraddoldeb ychwanegol ar gyfer y cyfnod hwnnw?**

Dewiswch eitem o'r gwymplen isod:

Ydw

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi sylwadau ategol yn y blwch sylwadau isod:

## Cwestiwn 3

**A oes gennych unrhyw farn ar y camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd er mwyn cyflawni pob un o'n hamcanion cydraddoldeb arfaethedig?**

Dewiswch eitem o'r gwymplen isod:

Ydw

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi sylwadau ategol yn y blwch sylwadau isod:

## Cwestiwn 4

**A oes gennych unrhyw farn ar sut y bwriadwn fonitro'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni pob un o'n hamcanion cydraddoldeb arfaethedig ?**

Dewiswch eitem o'r gwymplen isod:

Ydw

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi sylwadau ategol yn y blwch sylwadau isod:

## Eich Manylion

Enw a theitl swydd (pan fo'n berthnasol)

Enw eich sefydliad (pan fo'n berthnasol)

Manylion cyswllt

Diolch am gymryd yr amser i ymateb; bydd eich barn yn cael ei hystyried wrth ddrafftio ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol nesaf a gyhoeddir yng Ngwanwyn 2022.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.